# Gwasanaeth Cymunedol Dros Dro: Llanelli

### Lleoliad

Plas Llanelly
Stryd y Bont
Llanelli
SA15 3UF

### Dydd(iau) ac amser(au)

- O'r 14eg Medi 2026 am hyd at 12 wythnos
- Dydd Llun
- 9.30am – 1.30pm

### Rhagor o wybodaeth

Ffoniwch: **03457 888 444**
(Relay UK **18001 03457 888 444**)

## Sut gallwn ni'ch helpu chi

**Dyma'r pethau y gallwn ni roi cymorth i chi gyda nhw yn ein gwasanaeth cymunedol dros dro:**

- cofrestru ac ailosod bancio Ar-Lein a Symudol
- cymorth a chefnogaeth ynglŷn â sut i wneud y gorau o'n gwasanaethau bancio ar-lein a symudol
- gair i gall ynglŷn ag ymwybyddiaeth o dwyll a sgamiau
- gwybodaeth am sut i wneud eich bancio dydd-i-ddydd yn eich cangen leol o Swyddfa'r Post®
- gwybodaeth am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau.

**Os ydych chi wedi cofrestru eisoes ar gyfer ein gwasanaethau Bancio Ar-lein, drwy eich dyfais symudol, gallwn ni'ch helpu chi i:**

- weld cyfriflenni
- trosglwyddo arian rhwng eich cyfrifon
- gweld, creu neu newid archebion sefydlog
- gweld neu ganslo Debydau Uniongyrchol
- talu biliau drwy Taliadau Cyflymach (mae cyfyngiadau)
- gwneud taliadau o fewn y Deyrnas Unedig i dderbynwyr newydd neu rai presennol (mae cyfyngiadau)
- gwneud taliad rhyngwladol (mae cyfyngiadau)
- talu siec i mewn (mae cyfyngiadau)
- rhoi gwybod am gardiau sydd wedi'u colli, eu dwyn neu eu difrodi
- cau cyfrif
- canfod ATM neu gangen
- cefnogaeth gyda chostau byw
- deall eich anghenion unigol drwy Banking My Way.

## Beth ddylai fod gyda chi pan fyddwch chi'n ymweld?

Os ydych chi wedi cofrestru eisoes ar gyfer Bancio Ar-lein neu Symudol, dewch â dyfais gyda chi a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod eich cod cyfrin, rhif cwsmer, PIN a chyfrinair, yn ogystal â dyfais symudol (h.y. ffôn clyfar, iPad neu liniadur).

Os nad ydych chi wedi cofrestru ar gyfer Bancio Ar-lein, os ydych chi eisiau cofrestru, os oes angen ailosod eich cyfrinair/eiriau, neu os ydych chi'n awyddus i gael cymorth a chefnogaeth heb gofrestru ar gyfer ein gwasanaethau Ar-lein, dewch ag un o'r **dogfennau gwreiddiol** canlynol pan fyddwch chi'n ymweld.

Dewch â'ch Cerdyn Debyd (os oes un gennych) bob tro ac un o'r canlynol:

- pasbort llawn dilys
- trwydded yrru lawn y Deyrnas Unedig
- trwydded yrru dros dro'r Deyrnas Unedig
- cerdyn ID y lluoedd arfog
- cerdyn ID cenedlaethol yr UE/ AEE
- trwydded yrru'r UE/ AEE
- trwydded breswylio fiometrig

---

Mae'r ap ar gael i gwsmeriaid dros 11 oed sy'n defnyddio dyfeisiau iOS ac Android cydnaws a rhif ffôn y DU neu ryngwladol mewn gwledydd penodol. Bancio Ar-lein ar gael i gwsmeriaid dros 11 oed sydd â chyfrif NatWest.

P854542

Sganiwch y cod QR hwn neu ewch i **natwest.com/access-to-cash** i gael gwybod ble gallwch chi gael mynediad at wasanaethau arian parod.

NatWest